



Canllawiau ynghylch Llenwi'r Ffurflen Gais Amgen am Dystysgrif Cydnabod Rhyw

Cynlluniwyd y Nodiadau Cyfarwyddyd hyn er mwyn cynorthwyo ymgeiswyr i lenwi eu cais am Dystysgrif Cydnabod Rhyw dan y llwybr/trywydd amgen ar gyfer y rhai y maent mewn priodasau neu bartneriaethau sifil gwarchoddedig neu briodasau neu bartneriaethau sifil gwarchoddedig Albanaidd, y gwnaethant newid gryn amser yn ôl.

Cyn llenwi'r ffurflen, dylech ddarllen dogfen 'Y Canllawiau Cyffredinol i Bob Defnyddiwr' (Y Canllawiau Cyffredinol) er mwyn sicrhau eich bod yn llwyr ymwybodol o'r dair ffordd y mae modd i chi ymgeisio am Dystysgrif Cydnabod Rhyw lawn neu interim, ynghyd â chanlyniadau ymgeisio i newid eich rhyw yn unol â'r gyfrait.

Os yw'ch rhyw gaffaeledig wedi cael ei chydnabod dan gyfraith gwlad arall, efallai y byddwch yn gymwys i wneud cais dan drywydd y cais tramor (mae modd i chi gadarnhau hyn trwy droi at 'Y Canllawiau Cyffredinol'). Os nad ydych yn gymwys i ddefnyddio'r broses amgen na phroses y cais tramor, dylech ddilyn trywydd y cais safonol.

Rhaid i ymgeisydd sy'n defnyddio'r ffurflen gais amgen ddangos eu bod yn bodloni'r bedair amod ganlynol. Y rhain yw:

- eich bod wedi bod mewn priodas warchoddedig neu mewn partneriaeth sifil warchoddedig neu briodas warchoddedig Albanaidd neu bartneriaeth sifil warchoddedig Albanaidd ar neu cyn dyddiad eich cais, a'ch bod yn briod o hyd neu mewn partneriaeth sifil o hyd ar 10 Rhagfyr 2014 (16 Rhagfyr 2014 ar gyfer priodasau a phartneriaethau sifil gwarchoddedig Albanaidd)
- eich bod wedi bod yn byw yn eich rhyw gaffaeledig drwy'r amser am o leiaf 6 blynedd cyn 10 Rhagfyr 2014, a'ch bod wedi parhau i fyw yn y rhyw gaffaeledig nes y dyddiad pan wnaethpwyd y cais (16 Rhagfyr 2014 yw'r dyddiad hwn ar gyfer priodasau a phartneriaethau sifil gwarchoddedig Albanaidd)
- bod gennych chi neu yr oedd gennych chi ddysfforia rhywedd neu rydych chi wedi cael triniaeth lawfeddygol er mwyn addasu eich nodweddion rhywiol ac
- rydych yn byw yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban fel arfer.

Sylwer: nid yw'r trywydd ymgeisio hwn yn berthnasol i briodasau neu bartneriaethau sifil a gofrestrwyd yng Ngogledd Iwerddon.

Mae pob adran o'r canllawiau hyn yn dynodi pa wybodaeth y dylech ei chynnwys yn yr adran gyfatebol ar y ffurflen gais. Dylai'r Nodiadau Cyfarwyddyd hyn ateb y rhan fwyaf o'r cwestiynau sydd gennych.

Argymhellwn eich bod yn darllen y nodiadau perthnasol cyn llenwi pob adran o'r ffurflen. Os byddwch yn ei chael hi'n anodd llenwi'r ffurflen gais ar eich pen eich hun, gallech ofyn i ffrind neu rywun o sefydliad cymorth eich helpu, neu mae modd i chi ffonio tîm gweinyddol y Panel Cydnabod Rhyw (PCRh) ar 0300 123 4503.

Rhaid i chi lenwi adrannau **1, 2, 5, 6, 7, 10, 11 12** a NAILL AI adran **3** NEU adran **4**, p'un bynnag sy'n berthnasol i chi, ac adran **8**, os ydych mewn neu os oeddech mewn priodas warchodedig neu briodas warchodedig Albanaidd, neu adran **9** os ydych mewn neu os oeddech mewn partneriaeth sifil warchodedig neu bartneriaeth sifil Albanaidd.

O wneud cais, mae'r wybodaeth yn y cyhoeddiad hwn ar gael mewn ffurfiau amgen. Cysylltwch â thîm gweinyddol PCRh ar 0300 123 4503 neu grpenquiries@hmcts.gsi.gov.uk

Cyffredinol

Rydych yn dilyn y trywydd ymgeisio hwn oherwydd:

- eich bod mewn neu wedi bod mewn priodas warchoddedig neu bartneriaeth sifil warchoddedig, neu briodas warchoddedig Albanaidd neu bartneriaeth sifil warchoddedig Albanaidd ac
- wedi bod yn byw yn eich rhyw gaffaeledig am chwe blynedd neu fwy cyn 10 Rhagfyr 2014 (16 Rhagfyr 2014 ar gyfer priodasau a phartneriaethau sifil gwarchoddedig Albanaidd).

Os yw'ch priodas warchoddedig neu'ch partneriaeth sifil warchoddedig neu'ch priodas warchoddedig Albanaidd neu'ch partneriaeth sifil warchoddedig Albanaidd wedi cael ei therfynu, neu os yw'ch priod neu'ch partner wedi marw, mae modd i chi ddilyn y trywydd ymgeisio hwn o hyd, ar yr amod eich bod yn bodloni'r amodau cymhwyso eraill.

Ym mhob achos, rhaid eich bod yn byw yng Nghymru, yn Lloegr neu yn yr Alban fel arfer.

Mae priodas warchoddedig yn briodas dan gyfraith Cymru a Lloegr neu wlad neu diriogaeth y tu allan i'r DU. Mae partneriaeth sifil warchoddedig yn bartneriaeth sifil dan gyfraith Cymru a Lloegr. Mae priodas warchoddedig Albanaidd yn briodas a weinyddwyd yn yr Alban. Mae partneriaeth sifil warchoddedig Albanaidd yn un a gofrestrwyd yn yr Alban.

Os wnaethoch chi briodi neu ymrwymo i bartneriaeth sifil dramor mewn safle consylaidd neu mewn safle sy'n eiddo i'r lluoedd arfog, bydd eich priodas neu'ch partneriaeth sifil yn cael ei thrin fel un warchoddedig neu un warchoddedig Albanaidd os wnaethoch chi ddewis Cymru a Lloegr neu'r Alban fel rhan briodol y DU.

1. Eich manylion cyswllt

Mae'r adran hon yn eich holi am eich cais er mwyn darparu'r wybodaeth sylfaenol y bydd angen i'r Panel Cydnabod Rhyw (PCRh neu'r Panel) a'r Cofrestrydd Cyffredinol (sy'n gyfrifol am gofrestru genedigaethau a phriodasau a rhoi tystysgrifau geni a phriodas) ei chael er mwyn gohebu gyda chi am ddatblygiad eich cais. Dim ond pan fydd angen iddo wneud hynny y bydd y panel yn cysylltu â chi: er mwyn cydnabod eich cais a'ch hysbysu o benderfyniad, ac yn ôl yr angen, er mwyn gofyn am ragor o wybodaeth.

Rydym yn gofyn i chi ddweud wrthym sut y byddai'n well gennych i ni gysylltu â chi os bydd gennym unrhyw gwestiynau (e.e. drwy'r post, e-bost neu dros y ffôn). Fodd bynnag, hyd yn oed os byddwch yn dewis bod rhywun yn cysylltu â chi trwy e-bost neu dros y ffôn, bydd gofyn i ni gael cyfeiriad post o hyd oherwydd y bydd angen i ni ddychwelyd eich dogfennau gwreiddiol atoch ac anfon Tystysgrif Cydnabod Rhyw atoch os bydd eich cais yn llwyddiannus. Yn ogystal, bydd angen i ni gysylltu â chi am eich cais ac os byddwn yn cael anhawster wrth gael gafael arnoch gan ddefnyddio'r dull yr ydych yn ei ffafrio, byddwn yn ysgrifennu atoch i'ch cyfeiriad post gan ddarparu'r wybodaeth berthnasol am eich cais.

Cwestiynau	Nodiadau
1.1 Y teitl sy'n well gennych (Mr, Mrs, Miss, Ms, Dr ac ati).	Nodwch y teitl yr ydych yn dymuno i ni ei ddefnyddio.
1.2 Enw llawn yr ydych yn dymuno i ni ei ddefnyddio pan fyddwn yn cysylltu â chi.	Dywedwch wrthym yr enw yr ydych yn dymuno i ni ei ddefnyddio yn yr holl ohebiaeth.
1.3 Cyfeiriad post (ar gyfer yr holl ohebiaeth ysgrifenedig).	Defnyddir y cyfeiriad post hwn ar gyfer yr holl ohebiaeth pan fydd angen i ni anfon dogfennau gwreiddiol neu swyddogol i chi (e.e. er mwyn dychwelyd eich trwydded yrru neu er mwyn anfon penderfyniad y Panel atoch, gan gynnwys Tystysgrif Cydnabod Rhyw os byddwch yn llwyddiannus). Os ydych yn dymuno, mae modd ei ddefnyddio ar gyfer yr holl ohebiaeth. Nid oes yn rhaid i'r cyfeiriad hwn fod yn gyfeiriad eich cartref. Gallwch ddefnyddio unrhyw gyfeiriad er mwyn cael gohebiaeth drwy'r post, yr unig beth y bydd angen i chi ei sicrhau yw ei fod yn ddiogel ac y bydd modd i chi gasglu eich post oddi yno yn rheolaidd (o leiaf ddwywaith yr wythnos).
1.4 A ydych chi yn byw yng Nghymru, yn Lloegr, yn yr Alban, yng Ngogledd Iwerddon neu y tu allan i'r DU fel arfer?	Mae angen i ni gael gwybod ble'r ydych yn byw fel arfer gan bod yn rhaid eich bod yn byw yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban fel arfer er mwyn bod yn gymwys am y trywydd ymgeisio amgen.
1.5 Sut fyddech yn dymuno i ni gysylltu â chi os bydd gennym ni unrhyw gwestiynau?	A fyddech gystal â dewis y dull cysylltu yr ydych yn ei ffafrio. Pryd bynnag y bo modd, bydd tîm gweinyddol y Panel yn defnyddio'r dull hwn. Os na fydd modd i ni gysylltu â chi gan ddefnyddio'r dull hwn, byddwn yn ysgrifennu atoch i'r cyfeiriad a ddarparwyd gennych.
1.6 Rhif ffôn cyswllt yn ystod y dydd a'r amseroedd pan fyddwch ar gael ar y rhif hwn (os ydych yn dymuno i ni gysylltu â chi dros y ffôn). A fyddech gystal â chadarnhau bod modd i ni adael neges i chi ar beiriant ateb.	Dylech lenwi hwn os ydych yn dymuno i ni gysylltu â chi dros y ffôn yn bennaf. Dylech nodi rhif lle y byddwch ar gael rhwng 9am a 5pm, gan roi gwybod i ni pryd fyddai'r amser gorau i ffonio.

1.7	Cyfeiriad e-bost (os ydych yn dymuno i ni gysylltu â chi trwy e-bost).	Os ydych yn dymuno i ni gysylltu â chi trwy e-bost yn bennaf, nodwch eich cyfeiriad e-bost yn eglur yma. Cofiwch nad oes modd sicrhau bod e-bost yn ddiogel.
1.8	Os oes modd, rhestrwch unrhyw ddyddiadau pan na fyddwch ar gael am unrhyw gyfnodau y maent dros wythnos o hyd yn ystod y chwe mis nesaf.	<p>Yn gyffredinol, bydd gofyn i staff tîm gweinyddol PCRh gael ymateb i ymholiadau cyn pen 28 diwrnod. Fodd bynnag, rydym yn gwerthfawrogi na fydd modd gwneud hyn os byddwch i ffwrdd. Felly, hoffem i chi wneud nodyn yn y blwch hwn o unrhyw gyfnodau y maent dros wythnos o hyd, pan na fyddwch ar gael yn ystod y chwe mis o'r adeg pan fyddwch yn cyflwyno eich ffurflen gais.</p> <p>Ar ôl i chi gyflwyno eich cais, os bydd yn rhaid i chi fynd i ffwrdd am fwy nag wythnos ar y tro, dylech gysylltu â thîm gweinyddol PCRh er mwyn rhoi gwybod iddynt.</p>

2. Eich manylion personol

Byddwn yn gofyn am dri darn o wybodaeth

- Yr enwau yr ydych yn dymuno iddynt gael eu cofnodi ar eich Tystysgrif Cydnabod Rhyw os byddwch yn llwyddiannus.
- Cyfrinair ar gyfer eich cais er mwyn ein helpu i ddiogelu eich preifatrwydd.
- Eich rhif Yswiriant Gwladol os ydych yn dymuno i ni hysbysu'r awdurdodau perthnasol os bydd eich cais yn llwyddiannus.

A. Yr enwau yr ydych yn dymuno iddynt gael eu cofnodi ar eich Tystysgrif Cydnabod Rhyw os byddwch yn llwyddiannus

Rydym yn gofyn i chi ddweud wrthym yr enwau yr ydych yn dymuno iddynt gael eu cofnodi ar eich Tystysgrif Cydnabod Rhyw, oherwydd y gallai'r rhain fod yn wahanol i'r enwau a nodwyd gennych yn Adran 1 uchod.

Mae'r pwyntiau allweddol i'w cofio wrth gadarnhau'r enwau yr ydych yn dymuno iddynt ymddangos ar eich Tystysgrif Cydnabod Rhyw fel a ganlyn:

- Dylai'r enw y byddwch yn ei ddewis fod yr enw yr ydych yn dymuno cael eich galw yn barhaol yn eich rhyw gyfreithiol newydd.
- Cofnodir yr enw(au) cyntaf sy'n ymddangos ar eich Tystysgrif Cydnabod Rhyw yn y Gofrestr Cydnabod Rhyw. Gallai'r cyfenw sy'n ymddangos ar eich Tystysgrif Cydnabod Rhyw gael ei gofnodi yn y Gofrestr Cydnabod Rhyw NEU fe allech drefnu bod y cyfenw o'ch tystysgrif geni (neu'ch cofnod mabwysiadu) gwreiddiol yn cael ei gofnodi yn y Gofrestr Cydnabod Rhyw. Cedwir y gofrestr hon gan y Cofrestrydd Cyffredinol ac fe'i defnyddir yn yr un ffordd â'r Gofrestr Fabwysiadu er mwyn galluogi'r Cofrestrydd Cyffredinol i gyhoeddi tystysgrifau geni newydd heb newid y cofnod gwreiddiol yn y Gofrestr Genedigaethau. Mae modd gweld rhagor o fanylion am y broses o sicrhau tystysgrif geni newydd (gan gynnwys manylion y Gofrestr Cydnabod Rhyw) yn 'Y Canllawiau Cyffredinol'. Neu, gallwch gysylltu â Swyddfa'r Cofrestrydd Cyffredinol (Cofnodion Cenedlaethol yr Alban yn yr Alban) yn uniongyrchol. Bydd y staff yno yn gallu eich cynorthwyo gyda'r holl ymholiadau y maent yn ymwneud â'ch tystysgrif geni newydd.
- Yr enw(au) cyntaf a'r cyfenw a gofnodir yn y Gofrestr Cydnabod Rhyw fydd yr enwau a ddangosir ar dystysgrif geni newydd. Ar ôl sicrhau cydnabyddiaeth rhyw, bydd Swyddfa'r Cofrestrydd Cyffredinol perthnasol yn cysylltu â chi ac yn esbonio'r dewisiadau o ran eich tystysgrif geni a chofnodi cyfenwau.

SYLWER: Os ydych chi eisoes wedi newid eich enw trwy gyfrwng dogfen newid enw neu weithred newid enw, neu os ydych chi wedi gwneud cais trwy Gofnodion Cenedlaethol yr Alban (NRS) yn yr Alban i gofrestru enw, ac rydych yn dymuno ei newid eto fel rhan o'r

broses cydnabod rhyw, bydd angen i chi lenwi dogfen newid enw neu weithred newid enw arall neu wneud cais arall i NRS cyn i chi wneud cais am Dystysgrif Cydnabod Rhyw.

Cwestiynau	Nodiadau
2.1 Cyfenw yr ydych yn dymuno iddo gael ei gofnodi ar Dystysgrif Cydnabod Rhyw.	Bydd y cyfenw y byddwch yn ei nodi yma yn ymddangos ar y Dystysgrif Cydnabod Rhyw ac fe allai gael ei gofnodi yn y Gofrestr Cydnabod Rhyw ac ymddangos ar unrhyw dystysgrif geni newydd, oni bai eich bod yn cofrestru'r cyfenw yn eich cofnod genedigaeth.
2.2 Enw(au) cyntaf yr ydych yn dymuno iddo/iddynt gael eu cofnodi ar Dystysgrif Cydnabod Rhyw.	Bydd yr enw(au) cyntaf y byddwch yn ei gofnodi/eu cofnodi yma yn cael eu cofnodi ar y Dystysgrif Cydnabod Rhyw, yn y Gofrestr Cydnabod Rhyw ac ar unrhyw dystysgrif geni newydd a roddir i chi o ganlyniad.

B. Cyfrinair ar gyfer eich cais er mwyn ein helpu i ddiogelu eich preifatrwydd

Rydym yn gwybod bod y wybodaeth yn y cais hwn yn sensitif. Os byddwch yn ffonio'r Panel Cydnabod Rhyw neu Swyddfa'r Cofrestrydd Cyffredinol (Cofnodion Cenedlaethol yr Alban yn yr Alban) gydag ymholiad, byddwn yn gofyn am eich cyfrinair cyn y byddwn yn rhoi unrhyw wybodaeth.

Cwestiynau	Nodiadau
2.3 Cyfrinair (rhwng chwech a 10 llythyren).	Dylai'ch cyfrinair fod yn unrhyw air rhwng chwech a 10 llythyren, y mae'n hawdd i chi ei gofio. Ni ddylai'r cyfrinair gynnwys unrhyw rifau, bylchau na nodau, ac eithrio llythrennau.
2.4 Pam bod hwn yn arwyddocaol i chi?	Bydd angen i chi esbonio pam bod y cyfrinair a ddewiswyd gennych yn arwyddocaol i chi, felly os byddwch yn ei anghofio, bydd modd i ni roi clw i chi er mwyn eich helpu i'w gofio. Er enghraifft, efallai y byddwch yn dewis 'Pippin' fel eich cyfrinair. Os byddwch yn ei anghofio, bydd y Panel Cydnabod Rhyw yn eich atgoffa eich bod wedi nodi 'enw cath fy merch' yn yr adran hon.

C. Eich rhif Yswiriant Gwladol os ydych yn dymuno i ni hysbysu'r awdurdodau perthnasol os bydd eich cais yn llwyddiannus

Os bydd eich cais yn llwyddiannus ac os ydych chi wedi byw neu dalu treth yn y DU, neu os ydych chi wedi hawlio budd-daliadau, credydau treth neu bensiwn, bydd angen i chi hysbysu'r awdurdodau perthnasol. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod Cyllid a Thollau EM (CThem) ac unrhyw sefydliad sy'n talu budd-daliadau neu gredydau treth i chi (gallai hwn fod yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), yr Asiantaeth Nawdd Cymdeithasol yng Ngogledd Iwerddon neu Asiantaeth y Cyn-filwyr) yn cael eu hysbysu.

Os na fyddwch yn hysbysu'r sefydliadau perthnasol eich bod wedi cael Tystysgrif Cydnabod Rhyw lawn, efallai y bydd canlyniadau andwyol. Am wybodaeth bellach, gweler 'Y Canllawiau Gyffredinol'.

Er mwyn ei gwneud yn haws i chi, os byddwch yn llwyddiannus, bydd y Panel Cydnabod Rhyw yn hysbysu CThem sy'n dal eich cofnodion Yswiriant Gwladol, a byddant yn trosglwyddo'r wybodaeth i'r darparwr(darparwyr) budd-daliadau perthnasol. Er mwyn ein galluogi i wneud hyn, bydd angen i ni gael eich rhif Yswiriant Gwladol.

Cwestiynau	Nodiadau
2.5 Nodwch eich rhif Yswiriant Gwladol yma:	<p>Mae modd i chi weld eich rhif Yswiriant Gwladol ar eich Cerdyn Yswiriant Gwladol, ar slip cyflog neu ar y rhan fwyaf o ffurflenni treth megis P45 neu P60. Os nad ydych yn gwybod eich rhif Yswiriant Gwladol neu os na allwch ei gofio, cysylltwch â CThem ar 0845 91 57006.</p> <p>Sylwer mai dim ond er mwyn diweddarau eich cofnodion treth, credyd treth a budd-daliadau y bydd y wybodaeth hon yn cael ei darparu. Ni chaiff ei defnyddio at unrhyw ddiben arall</p>
2.6 Ticiwch yma os nad ydych yn dymuno i'r Panel drosglwyddo'r wybodaeth hon.	<p>Dylech roi tic yn y blwch hwn os byddai'n well gennych pe na bai'r Panel Cydnabod Rhyw yn hysbysu CThem os byddwch yn cael Tystysgrif Cydnabod Rhyw lawn.</p> <p>Cofiwch bod yn rhaid i chi roi gwybod i CThem os bydd eich cais yn llwyddiannus, a fydd yn golygu anfon eich Tystysgrif Cydnabod Rhyw a'ch rhif Yswiriant Gwladol atynt.</p> <p>Efallai y bydd canlyniadau andwyol os na fyddwch yn hysbysu CThem eich bod wedi cael Tystysgrif Cydnabod Rhyw lawn.</p>

Ar ôl i CThEM gael gwybod am eich cais llwyddiannus (naill ai gennyh chi neu'r Panel Cydnabod Rhyw), anfonir hysbysiad atoch er mwyn cadarnhau bod eich cofnodion yswiriant gwladol, treth, credydau treth, budd-daliadau a phensiwn wedi cael eu diweddarau.

Anfonir y cadarnhad hwn atoch i'r cyfeiriad a nodir yng nghofnodion CThEM. Gallai hwn fod yn wahanol i'r cyfeiriad a nodwyd gennyh yn adran 1.3. Efallai y byddwch yn dymuno cysylltu â CThEM ar 03000 554331 er mwyn sicrhau bod ganddynt eich enw a'ch cyfeiriad diweddaraf. Os ydych wedi dewis bod y Panel Cydnabod Rhyw yn hysbysu CThEM, ni fydd y llythyr cadarnhad gan CThEM yn sôn pam bod eich cofnodion wedi cael eu diweddarau ac ni fydd yn cyfeirio at eich cais neu'ch Tystysgrif Cydnabod Rhyw mewn unrhyw ffordd. Os byddwch yn dewis hysbysu CThEM eich hun, bydd angen iddynt weld eich Tystysgrif Cydnabod Rhyw wrth gwrs, ac yna, byddant yn ei dychwelyd atoch.

Mae'r gwasanaeth hwn ar gael ar gyfer preswylwyr y DU yn unig. Yn anffodus, nid oes modd i ni hysbysu'r awdurdodau yn Ynys Manaw neu Ynysoedd y Sianel a bydd angen i breswylwyr yr ynysoedd hyn hysbysu'r awdurdodau perthnasol yn uniongyrchol.

3. Gwybodaeth cofrestru genedigaeth ar gyfer genedigaethau a gofrestrwyd yn y DU

Os cofrestrwyd eich genedigaeth yn y DU (neu gan wasanaeth cofrestru y Lluoedd, neu gydag Uchel Gomisiwn neu Gonswl Prydeinig, neu dan ddarpariaethau Morio Masnachol neu Hedfan Sifil), bydd angen i chi ddarparu manylion cofrestru eich genedigaeth yn yr adran hon.

Mae gofyn cael manylion cofrestru eich genedigaeth oherwydd y byddant yn galluogi'r panel a'r Cofrestrydd Cyffredinol i ddilysu eich cais, ac os byddwch yn cael cydnabyddiaeth yn eich rhyw gaffaeledig, byddant yn eu galluogi i greu'r cofnod hwnnw, a fydd yn eich galluogi chi i sicrhau tystysgrif geni newydd.

A fyddech gystal â darparu manylion cofrestru eich genedigaeth fel y'u cofnodir ar eich tystysgrif geni neu'ch tystysgrif mabwysiadu. Po fwyaf o wybodaeth y byddwch yn ei nodi yma, yr hawsaf y bydd hi i ni brosesu eich cais. Yn ogystal, mae gofyn i ni gael eich tystysgrif geni lawn wreiddiol neu gopi ardystiedig ohoni. Ar ôl cael eich cais, bydd y panel yn cadarnhau eich manylion gyda'r Cofrestrydd Cyffredinol perthnasol er mwyn sicrhau bod gennym yr holl wybodaeth sy'n angenrheidiol ar gyfer y broses cydnabod rhyw.

Os cofrestrwyd eich genedigaeth y tu allan i'r Deyrnas Unedig, dylech ddarparu manylion cofrestru eich genedigaeth yn adran 4.

Questions	Notes
3.1 Eich cyfenw fel y'i cofnodir ar eich tystysgrif geni neu fabwysiadu.	Bydd y wybodaeth hon, ynghyd â'r manylion eraill y byddwch yn eu darparu, yn cynorthwyo'r Cofrestrydd Cyffredinol i ddod o hyd i'ch cofnod geni gwreiddiol. Ni chofnodir cyfenw plentyn mewn rhai cofnodion geni, pan fyddai'n cael ei gymryd ar y pryd y byddai cyfenw y rhiant(rhieni) yn cael ei ddefnyddio. Os yw hyn wedi digwydd yn yr achos hwn, a fyddech gystal â nodi cyfenw'r rhiant(rhieni).
3.2 Eich enw(au) cyntaf fel y'i cofnodir/y'u cofnodir ar eich tystysgrif geni neu fabwysiadu.	Rhestrir y rhain yn llawn ar eich tystysgrif geni neu fabwysiadu. Ni fydd eich enw gwreiddiol yn ymddangos mewn unrhyw ohebiaeth nac ar Dystysgrif Cydnabod Rhyw (oni bai eich bod wedi cadw eich enw gwreiddiol). Os bydd eich cais yn llwyddiannus, o wneud cais, byddwch yn cael llythyr yn nodi'ch enw gwreiddiol a'r ffaith eich bod yn cael eich cydnabod yn eich rhyw gyfreithiol newydd nawr, gydag enw newydd (pan fo hynny'n berthnasol). Efallai y bydd y llythyr hwn yn ddefnyddiol i chi wrth brofi mai chi yw chi, ond nid hwn fydd y Dystysgrif Cydnabod Rhyw. Bydd y dystysgrif yn

	ddogfen ar wahân, a dim ond yr enwau yr ydych wedi dweud yr ydych yn dymuno iddynt gael eu defnyddio yn adran 2 uchod, fydd yn cael eu cynnwys arni.
3.3 Rhyw fel y'i nodir ar eich tystysgrif geni neu fabwysiadu.	A fyddech gystal â rhoi tic wrth ymyl y rhyw a gofrestrwyd ar eich cyfer ar eich genedigaeth.
3.4 Dyddiad geni	Os byddwch yn llwyddiannus, bydd eich dyddiad geni a manylion eraill eich tystysgrif geni bresennol yn ymddangos ar Dystysgrif Cydnabod Rhyw ac ar dystysgrif geni newydd. Rhaid i chi nodi'r dyddiad geni fel y mae'n ymddangos ar eich tystysgrif geni neu fabwysiadu. Nid oes modd i chi newid hwn.
3.5 Man geni	Bydd y wybodaeth hon yn cynorthwyo'r Cofrestrydd Cyffredinol i ddod o hyd i'ch cofnod geni, a bydd yn ymddangos ar unrhyw Dystysgrif Geni newydd a gyhoeddir.
3.6 Cyfenw y tad, os y'i rhestrwyd.	Os cofnodir manylion eich tad ar eich tystysgrif geni neu fabwysiadu, dylech eu nodi yma.
3.7 Enwau cyntaf y tad, os y'u rhestrwyd.	Bydd hyn yn galluogi'r Cofrestrydd Cyffredinol i gadarnhau bod ganddynt y cofnod geni cywir.
3.8 Cyfenw'r fam cyn priodi.	Bydd enwau eich mam yn ymddangos ar yr holl dystysgrifau geni a mabwysiadu, a bydd yn galluogi'r Cofrestrydd Cyffredinol i gadarnhau eu bod wedi dod o hyd i'r cofnod geni neu fabwysiadu cywir.
3.9 Enwau cyntaf y fam.	Bydd hyn yn galluogi'r Cofrestrydd Cyffredinol i gadarnhau eu bod wedi dod o hyd i'r cofnod geni neu fabwysiadu cywir.
3.10 Os ydych yn gwybod eich bod wedi cael eich mabwysiadu yn y Deyrnas Unedig, ticiwch yma	Mae cofnodion geni unigolion y maent wedi cael eu mabwysiadu, neu gofnodion geni y rhai y cofrestrwyd eu genedigaethau mewn gwlad dramor gan wasanaeth cofrestru y Lluoedd, neu gydag Uchel Gomisiwn neu Gonswl Prydeinig, neu dan ddarpariaethau Morio Masnachol neu Hedfan Sifil, yn ymddangos ar gofrestrau ar wahân.
3.11 Os cofrestrwyd eich genedigaeth gan wasanaeth cofrestru y Lluoedd, neu gydag Uchel Gomisiwn neu Gonswl Prydeinig, neu dan ddarpariaethau Morio Masnachol neu Hedfan Sifil, ticiwch yma.	Bydd yn helpu'r Cofrestrydd Cyffredinol perthnasol i ddod o hyd i'ch cofnod geni os byddwch yn nodi trwy roi tic yn y blychau priodol a yw'r naill amod neu'r llall, neu'r ddau ohonynt, yn berthnasol i chi.

4. Gwybodaeth cofrestru genedigaeth ar gyfer genedigaethau a gofrestrwyd y tu allan i'r DU

Os cofrestrwyd eich genedigaeth y tu allan i'r DU (mewn geiriau eraill, os cofrestrwyd eich genedigaeth mewn unrhyw wlad nad yw'n rhan o'r DU ac ni chafodd ei chofrestru gan wasanaeth cofrestru y Lluoedd, neu gydag Uchel Gomisiwn neu Gonswl Prydeinig, neu dan ddarpariaethau Morio Masnachol neu Hedfan Sifil), rhaid i chi lenwi'r adran hon os ydych yn dymuno gwneud cais am Dystysgrif Cydnabod Rhyw yn y DU.

Rhaid i chi ddarparu tystysgrif geni wreiddiol neu gadarnhad swyddogol arall o'ch dyddiad geni a'ch rhyw ar eich genedigaeth, yn ogystal â'r wybodaeth y gofynnir amdani yn y blychau isod.

Mae modd i unrhyw un y caiff eu cais ei gymeradwyo gan Banel Cydnabod Rhyw y DU gael Tystysgrif Cydnabod Rhyw y DU lawn neu interim. Fodd bynnag, os na chofrestrwyd eich genedigaeth yn y Deyrnas Unedig, ni chaiff cofnod ei wneud yn y Gofrestr Cydnabod Rhyw ac ni fyddwch yn gymwys i gael tystysgrif geni y DU.

Er mwyn rhoi Tystysgrif Cydnabod Rhyw, rhaid bod y Panel Cydnabod Rhyw yn fodlon mai chi yw chi a bod y wybodaeth yr ydych wedi'i rhoi yn y rhan hon o'r ffurflen yn gywir. Dyna pam ein bod yn gofyn i chi ddarparu eich tystysgrif geni wreiddiol neu gadarnhad swyddogol arall o'ch dyddiad geni a'ch rhyw ar eich genedigaeth.

Cwestiynau	Nodiadau
4.1 Eich cyfenw fel y'i cofnodir ar eich tystysgrif geni neu fabwysiadu.	Mae angen i'r Panel Cydnabod Rhyw gofnodi eich enw fel y'i cofrestrwyd yn wreiddiol.
4.2 Eich enw(au) cyntaf fel y'i/y'u cofnodir ar eich tystysgrif geni neu fabwysiadu.	<p>Rhestrir y rhain yn llawn ar eich tystysgrif geni neu fabwysiadu. Peidiwch â phoeni os nad ydych yn siŵr o'ch holl enwau cyntaf.</p> <p>Ni fydd eich enw gwreiddiol yn ymddangos mewn unrhyw ohebiaeth nac ar Dystysgrif Cydnabod Rhyw (oni bai eich bod wedi cadw eich enw gwreiddiol). Os bydd eich cais yn llwyddiannus, o wneud cais, byddwch yn cael llythyr yn nodi'ch enw gwreiddiol a'r ffaith eich bod yn cael eich cydnabod yn eich rhyw gyfreithiol newydd nawr, gydag enw newydd (pan fo hynny'n berthnasol). Efallai y bydd y llythyr hwn yn ddefnyddiol i chi wrth brofi mai chi yw chi, ond nid hwn fydd y</p>

	Dystysgrif Cydnabod Rhyw. Bydd y dystysgrif yn ddogfen ar wahân, a dim ond yr enwau yr ydych wedi dweud yr ydych yn dymuno iddynt gael eu defnyddio yn adran 2 uchod, fydd yn cael eu cynnwys arni.
4.3 Rhyw fel y'i nodir ar eich tystysgrif geni neu fabwysiadu.	Yma, dylech nodi'r rhyw a gofrestrwyd ar eich cyfer ar eich genedigaeth.
4.4 Dyddiad geni.	Os byddwch yn llwyddiannus, bydd eich dyddiad geni a manylion eraill eich tystysgrif geni bresennol yn ymddangos ar Dystysgrif Cydnabod Rhyw. Rhaid i chi nodi'r dyddiad geni fel y mae'n ymddangos ar eich tystysgrif geni neu fabwysiadu. Nid oes modd i chi newid hwn.
4.5 Gwlad lle y cofrestrwyd yr enedigaeth.	Dylech nodi enw'r wlad lle y cofrestrwyd eich genedigaeth.

Os nad oes modd i chi ddarparu darnau penodol o wybodaeth neu ddogfennaeth swyddogol o'ch dyddiad geni a'ch rhyw ar eich genedigaeth, dylech ddefnyddio'r blwch ar ddiwedd adran 4 er mwyn esbonio pam. Er enghraifft, pan fo hynny'n berthnasol, defnyddiwch y blwch hwn er mwyn esbonio'ch statws mewn perthynas â lloches. Os bydd angen mwy o le arnoch, a fyddech gystal â pharhau ar dudalen ar wahân, a'i hanfon gyda'ch pecyn ymgeisio.

5. Amser a dreuliwyd yn byw yn eich rhyw gaffaeledig

Er mwyn bod yn gymwys i gael cydnabyddiaeth dan y ddarpariaeth hon, rhaid bod modd i chi brofi eich bod wedi byw yn eich rhyw gaffaeledig drwy'r amser am o leiaf chwe blynedd cyn 10 Rhagfyr 2014 (16 Rhagfyr 2014 yw'r dyddiad hwn ar gyfer priodasau a phartneriaethau sifil gwarchoddedig Albanaidd).

Felly, yn yr adran hon, byddwn yn gofyn i chi ddweud wrthym y dyddiad y mae modd i chi ddangos eich bod wedi bod yn byw yn eich rhyw gaffaeledig drwy'r amser ers hynny a byddwn yn gofyn i chi ddarparu tystiolaeth ategol.

Rhaid i chi ddarparu dogfennau gwreiddiol neu gopiau ardystiedig pryd bynnag y bo modd, a byddwn yn dychwelyd y rhain i chi drwy'r post brys.

Cwestiynau	Nodiadau
5.1 A fydddech gystal â nodi'r dyddiad o'r adeg pan fo modd i chi ddarparu tystiolaeth eich bod wedi bod yn byw yn eich rhyw gaffaeledig newydd drwy'r amser am chwe blynedd.	Dylech nodi'r dyddiad o'r adeg lle y mae modd i chi brofi eich bod wedi bod yn byw yn eich rhyw gaffaeledig drwy'r amser. I fodloni'r gofynion, rhaid bod y dyddiad hwn o leiaf chwe blynedd cyn 10 Rhagfyr 2014 (16 Rhagfyr 2014 ar gyfer priodasau a phartneriaethau sifil gwarchoddedig Albanaidd).

Mae angen i chi ddarparu tystiolaeth ar ffurf dogfennau y maent yn nodi'r dyddiad ac y maent yn cynnwys eich enw yn eich rhyw gaffaeledig. Os yw'r enw ar y dystiolaeth yn wahanol i'r enw a ddefnyddiwyd gennych yn y ffurflen gais, bydd angen i chi ddangos ei bod yn ymwneud â chi.

Gallai'r dystiolaeth fod mewn amrywiaeth o ffurfiau. Mae'r canlynol yn rhestru rhai enghreifftiau:

- Dogfennaeth swyddogol e.e. trwydded yrru (rhan bapur eich trwydded a'r drwydded yrru cerdyn-llun) a phasbort;
- Slipiau cyflog neu ddogfennau CThEM fel P60 neu P45;
- Dogfennau neu lythyrau treth neu fudd-daliadau CThEM neu'r Adran Gwaith a Phensiynau;
- Datganiadau neu ddogfennau banc neu gan sefydliad ariannol arall;
- Llythyrau gan sefydliadau swyddogol, proffesiynol neu fusnes, megis gan gyfreithwyr, cyfrifwyr, deintyddion, meddygon, cyflogwyr neu lythyrau gan bobl sy'n eich adnabod yn bersonol;
- Biliau cyfleustodau;
- Dogfennaeth neu dystysgrifau academiaidd;
- Cardiau adnabod neu Ofal Iechyd gan gynnwys manylion adnabod sy'n cynnwys llun, a gyhoeddir gan sefydliad swyddogol.

Nid yw'r rhestr hon yn cynnwys popeth a'i diben yw cynnig canllaw yn unig.

A fydddech gystal â chasglu eich tystiolaeth ac yna, rhestru'r holl ddogfennau yr ydych yn eu hanfon yn y tabl perthnasol yn adran 11 y ffurflen hon.

Pan fyddwch wedi bod mewn un priodas neu bartneriaeth sifil neu fwy y maent wedi cael eu terfynu, bydd gofyn i chi ddarparu copi o'r archddyfarniad a oedd yn dwyn eich priodas i ben, neu dystiolaeth bod eich partneriaeth sifil wedi cael ei therfynu. Yn ogystal, bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth o'r holl newidiadau enw, a phan na fydd modd i chi ddarparu tystiolaeth benodol o newid enw, bydd angen i chi esbonio pam.

Yn ogystal, mae'r Panel yn dymuno gweld detholiad o ddogfennau ar gyfer y cyfnod llawn o chwe blynedd a chan barhau nes dyddiad eich cais. Mae o gymorth darparu detholiad o ddogfennau er mwyn dangos eich bod wedi bod yn byw yn eich rhyw gaffaeledig drwy'r amser. Fel rheol, dylid cynnwys pump neu chwech o wahanol ddogfennau gyda chais, gan gynnwys pan fo hynny'n berthnasol, pasbort, trwydded yrru, slipiau cyflog neu ddogfennau budd-daliadau, biliau cyfleustodau neu ddogfennau eraill o natur swyddogol. Mae modd i'r Panel roi cyfarwyddyd y dylid darparu dogfennau ychwanegol yn ôl yr angen. Rhoddir sylw i bob cais yn ôl ei haeddiant, felly dim ond canllaw cyffredinol y mae modd i'r nodyn hwn ei gynnig.

Ni ddylech anfon niferoedd mawr o ddogfennau oni bai bod hynny yn hollol angenrheidiol. Os hoffech ddarparu tystiolaeth ar gyfer eich cais y mae gofyn ei chyfieithu i'r Saesneg, bydd tîm gweinyddol y panel yn gofyn i chi ddarparu dogfennau wedi'u cyfieithu yn broffesiynol er mwyn cefnogi eich cais.

Os bydd gennych chi unrhyw bryderon am eich tystiolaeth, dylech gysylltu â'r tîm gweinyddol, a bydd modd iddynt eich cynghori. Nodir y manylion cyswllt ar ddiwedd y canllawiau hyn.

6. Adroddiad meddygol

Yn ogystal â phrofi eich bod wedi bod yn byw yn eich rhyw gaffaeledig ers chwe blynedd, rhaid i chi ddarparu tystiolaeth feddygol. Dim ond un adroddiad meddygol sy'n ofynnol dan y trywydd ymgeisio amgen. Rhaid i'r adroddiad hwnnw gadarnhau:

- eich bod chi wedi cael diagnosis dysfforia rhywedd neu
- eich bod wedi cael triniaeth lawfeddygol er mwyn addasu eich nodweddion rhywiol.

Rhaid bod eich tystiolaeth feddygol yn cael ei darparu gan feddyg sydd wedi cofrestru gyda'r Cyngor Meddygol Cyffredinol (CMC) neu seicolegydd cofrestredig sydd wedi cofrestru gyda'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal, y maent yn gweithio ym maes dysfforia rhywedd. Er mis Tachwedd 2009, sylwer bod hyn yn golygu bod yn rhaid bod y meddyg wedi cofrestru gyda CMC a'u bod yn meddu ar drwydded i wneud gwaith meddygol.

Os ydych yn gwneud cais ar y sail bod gennych chi ddysfforia rhywedd neu y bu gennych chi ddysfforia rhywedd ac nid ydych chi wedi cael llawdriniaeth, bydd y panel yn gofyn am adroddiad meddygol sy'n cynnwys manylion y diagnosis dysfforia rhywedd. Rhaid i'r adroddiad hwn gael ei ddarparu gan ymarferwr meddygol cofrestredig sy'n gweithio ym maes dysfforia rhywedd neu seicolegydd cofrestredig sy'n gweithio ym maes dysfforia rhywedd.

Os ydych yn gwneud cais ar y sail eich bod wedi cael llawdriniaeth er mwyn addasu eich nodweddion rhywiol, rhaid i'r adroddiad hwn gael ei ddarparu gan ymarferwr meddygol cofrestredig (y gallent fod yn gweithio ym maes dysfforia rhywedd ond nid o reidrwydd) neu gan seicolegydd cofrestredig y mae'n rhaid eu bod yn gweithio ym maes dysfforia rhywedd. Mae hyn yn golygu, er enghraifft, bod modd i'r adroddiad gael ei ddarparu gan eich meddyg teulu neu'ch llawfeddyg. Rhaid i'r adroddiad gynnwys manylion penodol y driniaeth yr ydych chi wedi'i chael, ynghyd ag unrhyw driniaeth bellach yr ydych yn bwriadu ei chael.

Cedwir rhestr o'r meddygon a'r seicolegwyr y maent yn cael eu cydnabod fel rhai sy'n gweithio ym maes dysfforia rhywedd ar wefan y Panel Cydnabod Rhyw. Neu, os na fyddwch yn troi at y wefan, mae modd i chi gysylltu â'r tîm gweinyddol.

Mae modd cael profforma ar gyfer yr adroddiadau meddygol gan dîm gweinyddol y Panel Cydnabod Rhyw neu ar ei wefan.

Os ydych eisoes wedi cael adroddiad gan unigolyn addas sy'n bodloni'r meini prawf uchod, gallwch ei gyflwyno fel yr adroddiad meddygol ar gyfer y cais hwn os yw ar bapur swyddogol neu os yw'n cynnwys stamp swyddogol. Peidiwch â phoeni os nad oes gennych chi adroddiad o'r cyfnod pan gawsoch eich triniaeth. Bydd y ffurflen a ddarparir yn hawdd i'ch meddyg neu'ch seicolegydd ei llenwi.

Cwestiynau	Nodiadau
6.1 Enw'r ymarferydd meddygol cofrestredig neu'r seicolegydd cofrestredig arbenigol a wnaeth ddarparu'r adroddiad.	A fyddech gystal â darparu enw a chymhwyster (os ydych yn ei wybod) yr ymarferydd meddygol cofrestredig neu'r seicolegydd cofrestredig arbenigol a wnaeth ddarparu'r adroddiad i chi.
6.2 Cyfeiriad proffesiynol (os yw'r unigolyn yn gwneud gwaith meddygol o hyd).	A fyddech gystal â darparu manylion cyswllt yr unigolyn a wnaeth ddarparu'r dystiolaeth, ond dim ond os ydynt yn parhau i wneud gwaith meddygol. Efallai y bydd y panel yn gwirio bod unigolion yn bodloni'r meini prawf gofynnol er mwyn darparu adroddiad dilys.
6.3 Rhif ffôn cyswllt yn ystod y dydd.	A fyddech gystal â darparu rhif ffôn cyswllt yr ymarferydd meddygol cofrestredig neu'r seicolegydd cofrestredig yn ystod y dydd.

7. Manylion yr unigolyn sy'n llofnodi eich Datganiad Statudol Cydnabod Rhyw

Mae datganiad statudol yn ddatganiad ysgrifenedig o'r ffeithiau, y mae'r unigolyn sy'n ei wneud yn datgan o ddifrif ei fod yn wir gerbron unigolyn wedi'u hawdurdodi i roi llw. Mae gofyn i chi ddarparu datganiad statudol sy'n gwneud sawl datganiad am eich amgylchiadau a'ch cais. Diben hyn yw sicrhau eich bod yn bodloni'r meini prawf er mwyn rhoi Tystysgrif Cydnabod Rhyw.

Bydd y math o ddatganiad statudol y byddwch yn ei lenwi yn dibynnu ar y cwestiwn ynghylch a ydych yn sengl, yn briod neu mewn partneriaeth sifil ar hyn o bryd. Rhaid i chi lenwi un o blith tri datganiad statudol y Panel:

- Mae T467 ar gyfer pobl sengl
- Mae T466 ar gyfer y rhai y maent yn briod ar hyn o bryd ac
- Mae T468 ar gyfer y rhai y maent mewn partneriaeth sifil ar hyn o bryd.

Os nad ydych yn siŵr pa ddatganiad statudol i'w lenwi, dylech holi aelod o dîm gweinyddol y Panel.

Rydym wedi darparu templed safonol ar gyfer pob un o'r datganiadau statudol. Mae'n cynnwys yr holl ddatganiadau y bydd angen i chi eu gwneud. A fyddech gystal â sicrhau eich bod yn llenwi neu'n dileu'r holl adrannau perthnasol yn y datganiad statudol cywir ar gyfer eich sefyllfa chi.

Ar ôl i chi lenwi'r datganiad statudol ac rydych yn fodlon ei fod yn cynrychioli'r gwir, bydd angen i chi ei lofnodi o flaen unigolyn a awdurdodwyd i roi llw.

Mae enghreifftiau o bobl y byddent yn dderbyniol yn cynnwys cyfreithiwr wrth eu gwaith, comisiynydd llwon, notari cyhoeddus, swyddog gweithredol cyfreithiol, trawsgludwr trwyddedig, eiriolwr awdurdodedig, adfocad awdurdodedig neu Ynad Heddwch neu ynad. Yn yr Alban, mae modd i notari cyhoeddus neu Ynad Heddwch roi llw. Byddai'r rhan fwyaf o gyfreithwyr yn yr Alban yn notariaid cyhoeddus hefyd.

Yn adrannau 7.1 – 7.5 y ffurflen gais, dylech ddarparu manylion y datganiad statudol a'r unigolyn awdurdodedig y gwnaethpwyd y datganiad ger eu bron.

Gwybodaeth bellach yr ymgeisydd

Cwestiynau	Nodiadau
7.6 A ydych yn briod ar hyn o bryd?	A fyddech gystal â rhoi tic yn y blwch sy'n berthnasol i chi. Os ydych yn briod ar hyn o bryd, dylech lenwi adran 8 ar gyfer pobl briod hefyd.

Cwestiynau	Nodiadau
7.7 A ydych mewn partneriaeth sifil ar hyn o bryd?	A fyddech gystal â rhoi tic yn y blwch sy'n berthnasol i chi. Os ydych mewn partneriaeth sifil ar hyn o bryd, dylech lenwi adran 9 ar gyfer y rhai mewn partneriaethau sifil hefyd.
7.8 A fyddech gystal â dweud wrthym a ydych yn gwneud cais am Dystysgrif Cydnabod Rhyw lawn neu interim.	<p>Mae modd cyhoeddi Tystysgrifau Cydnabod Rhyw llawn i ymgeiswyr llwyddiannus</p> <ul style="list-style-type: none"> • y maent yn sengl – mae hyn yn cynnwys y rhai y mae eu priodas neu eu partneriaeth sifil flaenorol wedi cael ei therfynu. • y maent mewn priodas warchoddedig neu mewn priodas warchoddedig Albanaidd, lle y mae'r ddau barti yn cytuno eu bod yn dymuno aros yn briod ar ôl cydnabod rhyw yr ymgeisydd ac mae'r priod wedi rhoi datganiad cydsynio statudol yn cadarnhau hyn. • y maent mewn partneriaeth sifil warchoddedig neu mewn partneriaeth sifil warchoddedig Albanaidd, lle y mae'r ddau barti yn gwneud cais ar yr un pryd ac yn cael eu rhyw wedi'i gydnabod ar yr un diwrnod.
	<p>Mae priodas warchoddedig yn briodas dan gyfraith Cymru a Lloegr neu wlad neu diriogaeth y tu allan i'r DU. Mae partneriaeth sifil warchoddedig yn bartneriaeth sifil dan gyfraith Cymru a Lloegr. Mae priodas warchoddedig Albanaidd yn briodas a weinyddwyd yn yr Alban. Mae partneriaeth sifil warchoddedig Albanaidd yn un a gofrestrwyd yn yr Alban. Os wnaethoch chi briodi mewn safle consylaidd neu mewn safle sy'n eiddo i'r lluoedd arfog, bydd y ffordd y byddwch yn cael eich trin yn dibynnu ar eich penderfyniad i ddewis Cymru a Lloegr, yr Alban neu Ogledd</p>

	<p>Iwerddon fel rhan briodol y DU. Rhaid eich bod mewn priodas neu bartneriaeth sifil sy'n bodoli eisoes adeg darpariaethau cyffredinol Deddf Priodas (cyplau o'r rhyw) 2013 a gychwynnodd ar 10 Rhagfyr 2014 (16 Rhagfyr 2014 yw'r dyddiad ar gyfer priodasau neu bartneriaethau sifil gwarchoddedig Albanaidd)</p>
	<p>Cyhoeddir Tystysgrifau Cydnabod Rhyw Interim i ymgeiswyr y maent yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cydnabod rhyw, ond y maent naill ai</p> <ul style="list-style-type: none"> • heb fod yn gymwys i aros yn briod ar ôl i'w rhyw gael ei chydabod oherwydd eu bod wedi priodi dan gyfraith Gogledd Iwerddon, neu • yn gymwys ond maen nhw a/neu eu priod wedi penderfynu nad ydynt yn dymuno aros yn briod ar ôl cyhoeddi eu Tystysgrif Cydnabod Rhyw lawn. • maent mewn partneriaeth sifil warchoddedig neu bartneriaeth sifil warchoddedig Albanaidd, lle y mae dim ond un partner wedi gwneud cais cydnabod rhyw (neu lle y mae'r ddau wedi ymgeisio, ond dim ond un ohonynt sy'n llwyddiannus). • maent mewn partneriaeth sifil ond mae'n bartneriaeth nad yw'n warchoddedig nac yn bartneriaeth sifil warchoddedig Albanaidd.

Adran 8 Priodas

Dim ond os ydych chi neu os oeddech chi mewn priodas warchodedig neu briodas warchodedig Albanaidd y dylech chi lenwi adran 8

Cwestiynau	Nodiadau
8.1 A ydych chi mewn priodas warchodedig neu briodas warchodedig Albanaidd ar hyn o bryd neu a oeddech chi mewn priodas warchodedig neu briodas warchodedig Albanaidd yn flaenorol?	<p>Ticiwch ydw/oeddwn neu nac ydw/nac oeddwn. Fel yr esboniwyd yn flaenorol, mae priodas warchodedig yn briodas dan gyfraith Cymru a Lloegr neu wlad neu diriogaeth y tu allan i'r DU. Mae priodas warchodedig Albanaidd yn briodas a weinyddwyd yn yr Alban. Dim ond y rhai mewn priodas warchodedig neu briodas warchodedig Albanaidd fydd yn gallu penderfynu gyda'u priod a fyddant yn aros yn eu priodas bresennol ar ôl y broses cydnabod rhyw.</p> <p>Bydd yn rhaid i'r rhai a briodwyd dan gyfraith Gogledd Iwerddon derfynu eu priodas bresennol yn eu rhyw enedigol cyn y bydd modd rhoi eu tystysgrif cydnabod rhyw lawn iddynt.</p>
8.2 Os yw'ch priodas yn briodas warchodedig neu'n briodas warchodedig Albanaidd, a ydych chi a'ch priod yn bwriadu parhau i fod yn briod ar ôl i chi fod trwy'r broses cydnabod rhyw?	<p>Ticiwch ydym neu nac ydym gan ddibynnu ar y penderfyniad yr ydych chi a'ch priod wedi'i wneud.</p>
8.3 A yw'ch priod wedi gwneud datganiad cydsynio statudol?	<p>Ticiwch ydynt neu nac ydynt</p>
8.4 Os wnaethoch ateb Ydynt yn 8.3, a yw'n amgaaedig gyda'r cais hwn?	<p>Ticiwch ydy neu nac ydy</p> <p>Sylwer os wnaethoch chi roi tic wrth ymyl ydynt yn 8.3 ond mae datganiad statudol eich priod yn cael ei anfon atom ar wahân, efallai y bydd eich cais yn cael ei oedi nes byddwn yn cael y datganiad statudol.</p>

Ym mhob achos, sylwer y bydd angen i chi anfon eich tystysgrif priodas wreiddiol atom neu gopi ardystiedig ohoni. Os nad ydych chi yn briod mwyach oherwydd bod eich priodas wedi cael ei therfynu neu os yw'ch priod wedi marw, bydd angen i ni gael gwybod hyn. Yn ogystal, bydd angen i ni gael manylion y dyddiad pan derfynwyd eich priodas neu'r dyddiad pan fu farw eich priod. Bydd angen i ni gael copi o'r archddyfarniad a oedd yn terfynu eich priodas hefyd, neu gopi ardystiedig o dystysgrif marwolaeth eich priod.

Cwestiynau	Nodiadau
8.5 A yw'ch priodas wedi cael ei therfynu?	Ticiwch ydy neu nac ydy.
8.6 A yw'ch priod wedi marw?	Ticiwch ydynt neu nac ydynt.
8.7 Nodwch y dyddiad pan derfynwyd eich priodas neu'r dyddiad pan fu farw eich priod.	Nodwch y dyddiad perthnasol.

Ar ôl cwblhau adran 8, ewch i adran 10 – talu.

Adran 9 Partneriaid Sifil

Dim ond os ydych chi neu os oeddech chi mewn partneriaeth sifil warchoddedig neu bartneriaeth sifil warchoddedig Albanaidd y dylech chi lenwi'r adran hon. Os yw'ch partneriaeth sifil dan gyfraith Cymru a Lloegr neu os cafodd ei chofrestru yn yr Alban, mae modd i'r ddau bartner wneud cais am Dystysgrif Cydnabod Rhyw ar yr un pryd. Os byddwch yn llwyddiannus, cyhoeddir eich tystysgrifau llawn ar yr un pryd, heb yr angen i chi derfynu eich partneriaeth sifil yn eich rhyw enedigol yn gyntaf.

Cwestiynau	Nodiadau
9.1 A ydych chi mewn partneriaeth sifil warchoddedig neu bartneriaeth sifil warchoddedig Albanaidd ar hyn o bryd neu a oeddech chi mewn partneriaeth sifil warchoddedig neu bartneriaeth sifil warchoddedig Albanaidd yn flaenorol?	Ticiwch ydw/oeddwn neu nac ydw/nac oeddwn.
9.2 A ydych chi a'ch partner yn gwneud cais cydnabod rhyw ar yr un pryd?	<p>Ticiwch ydym neu nac ydym. Os ydych chi a'ch partner sifil yn gwneud cais cydnabod rhyw ar yr un pryd, mae'n bwysig bod tîm gweinyddol y panel yn gwybod hyn o'r dechrau, fel bod modd iddynt drefnu bod yr un panel yn delio gyda'r ddau gais ar yr un pryd.</p> <p>Sylwer os cytunwyd ar eich partneriaeth sifil yng Ngogledd Iwerddon neu mewn gwlad neu diriogaeth y tu allan i'r DU, bydd angen i chi derfynu eich partneriaeth sifil, hyd yn oed os bydd y ddau ohonoch yn gwneud cais cydnabod rhyw ar yr un pryd.</p>
9.3 A yw'ch partneriaeth sifil wedi cael ei therfynu?	Ticiwch ydy neu nac ydy.

9.4	A yw'ch partner sifil wedi marw?	Ticiwch ydynt neu nac ydynt.
9.5	Nodwch y dyddiad pan derfynwyd eich partneriaeth sifil neu'r dyddiad pan fu farw eich priod.	Nodwch y dyddiad perthnasol yn y blwch.

Sylwer y bydd angen i chi anfon eich tystysgrif partneriaeth sifil wreiddiol neu gopi ardystiedig ohoni atom ym mhob achos. Os yw'ch partneriaeth sifil wedi cael ei therfynu neu os yw'ch partner wedi marw, bydd angen i ni gael gwybod hyn. Yn ogystal, bydd angen i ni gael copi o'r archddyfarniad a oedd yn terfynu eich partneriaeth sifil neu gopi o dystysgrif marwolaeth eich partner.

10. Talu

Mae modd gweld manylion y ffi sy'n daladwy er mwyn gwneud cais am Dystysgrif Cydnabod Rhyw mewn taflen ar wahân, 'Y Canllawiau Cyffredinol', ac mae hon yn rhoi cyflwyniad i'r broses Cydnabod Rhyw, faint yw'r ffi a manylion ynghylch sut i dalu'r ffi.

Mae'r canllaw i ymgeisio am help i dalu ffioedd (EX160A) a'r ffurflen gais (EX160) yn dweud wrthyhych os ydych yn gymwys i beidio gorfod talu'r ffi neu fanteisio ar ostyngiad i'r ffi. Mae modd i chi lawrlwytho'r rhain o hmctsformfinder.justice.gov.uk

Os na fyddwch yn darparu'r ffi gywir, ni phrosesir eich cais nes bydd y Panel Cydnabod Rhyw yn cael y taliad cywir. Dylech sicrhau bod sieciau ac archebion post yn daladwy i Gasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM.

11. Rhestr wirio o'r dogfennau sy'n cefnogi eich cais

Yn ogystal â'r ffurflen gais a lenwyd, adroddiadau meddygol a datganiad(au) statudol, gofynnwyd i chi ddarparu darnau eraill o dystiolaeth er mwyn cynorthwyo eich cais.

Os ydych mewn priodas neu bartneriaeth sifil ar hyn o bryd, bydd angen i ni gael gweld eich tystysgrif priodas neu'ch tystysgrif partneriaeth sifil wreiddiol neu gopi ardystiedig ohoni. Os oeddech yn briod yn flaenorol ac rydych chi wedi ysgaru, a fydddech gystal â chynnwys copi o'r archddyfarniad sy'n terfynu eich priodas neu dystiolaeth o'r ffaith bod eich partneriaeth sifil wedi cael ei therfynu. Os ydych chi wedi bod yn briod neu mewn partneriaeth sifil ac mae'ch priod wedi marw, a fydddech gystal â chynnwys copi o'u tystysgrif marwolaeth.

A fydddech gystal â sicrhau eich bod yn cyflwyno'r holl ddogfennau newid enw gyda'ch cais. Dylai bod trywydd manwl ar gael o unrhyw newidiadau enw yr ydych chi wedi bod trwyddynt o'ch genedigaeth (neu fabwysiadu) i ddyddiad y cais. Os nad oes gennych chi unrhyw rai o'r dogfennau perthnasol, a fydddech gystal â rhoi esboniad pam.

Casglwch eich tystiolaeth ac yna, rhestrwch yr holl ddogfennau yr ydych yn eu hanfon yn y tabl perthnasol yn adran 11 y ffurflen hon.

Yn ogystal, mae'r Panel yn dymuno gweld detholiad o ddogfennau y maent yn ymwneud â'r cyfnod cymhwyso llawn o chwe blynedd a hyd at ddyddiad eich cais. Mae o gymorth darparu detholiad o ddogfennau er mwyn dangos eich bod wedi bod yn byw yn eich rhyw gaffaeledig drwy'r amser. Dylid cynnwys o leiaf bump neu chwech dogfen wahanol gyda chais gan gynnwys pan fo hynny'n berthnasol, pasbort, trwydded yrru, slipiau cyflog neu ddogfennau budd-daliadau, biliau cyfleustodau neu ddogfennau eraill o natur swyddogol. Mae modd i'r panel roi cyfarwyddiadau bod dogfennau ychwanegol yn cael eu darparu yn ôl yr angen. Rhoddir sylw i bob cais yn ôl ei haeddiant, felly dim ond canllaw gyffredinol y mae modd i'r nodyn hwn ei gynnig.

Ni ddylech anfon niferoedd mawr o ddogfennau oni bai bod hynny yn hollol angenrheidiol.

Er mwyn bod yn gymwys fel tystiolaeth, rhaid bod dogfennau yn cynnwys y dyddiad ac mae'n rhaid eu bod yn cynnwys eich enw. Os yw'r enw ar y dystiolaeth yn wahanol i'r enw a ddefnyddiwyd gennych chi yn y ffurflen gais, bydd angen i chi brofi ei bod yn berthnasol i chi.

Yn ychwanegol i'r adroddiadau meddygol, y datganiad statudol, dogfen newid enw a phan fo hynny'n berthnasol, archddyfarniad sy'n terfynu eich priodas neu'ch partneriaeth sifil, rhestrwch yr eitemau tystiolaeth ategol yr ydych yn eu darparu gyda'ch cais yn y blwch a ddarparwyd, megis:

- Dogfennaeth swyddogol e.e. trwydded yrru (rhan bapur eich trwydded a'r drwydded yrru cerdyn-llun) a phasbort;
- Slipiau cyflog neu ddogfennau Cyllid a Thollau EM (CThEM) fel P60 neu P45;

- Dogfennau neu lythyrau treth neu fudd-daliadau CThEM neu'r Adran Gwaith a Phensiynau;
- Datganiadau neu ddogfennau banc neu gan sefydliad ariannol arall;
- Llythyrau gan sefydliadau swyddogol, proffesiynol neu fusnes, megis gan gyfreithwyr, cyfrifwyr, deintyddion, meddygon, cyflogwyr neu lythyrau gan bobl sy'n eich adnabod yn bersonol;
- Biliau cyfleustodau;
- Dogfennaeth neu dystysgrifau academiaidd;
- Cardiau adnabod neu Ofal Iechyd gan gynnwys manylion adnabod sy'n cynnwys llun, a gyhoeddir gan sefydliad swyddogol

Dylech roi tic yn y blwch ar ochr dde y tabl os yw'r ddogfen yn amgaaedig gyda'ch cais.

Dychwelir yr holl ddogfennau gwreiddiol i chi trwy'r post brys.

12. Datganiadau

Mae angen llofnodi eich cais a nodi'r dyddiad arno er mwyn cadarnhau bod yr holl wybodaeth a roddwyd gennych yn gywir hyd eithaf eich gwybodaeth. Mae gwneud cais anwir am Dystysgrif Cydnabod Rhyw yn drosedd.

Os cofrestrwyd eich genedigaeth yn y DU yn wreiddiol, bydd y tîm gweinyddol yn cysylltu â'r Cofrestrydd Cyffredinol ar ôl cael eich cais er mwyn cadarnhau bod manylion cofrestru eich genedigaeth yn gywir ac er mwyn gwirio eich cais. Yn yr un modd, efallai y bydd angen iddynt wneud hyn os cofrestrwyd eich priodas neu'ch partneriaeth sifil yng Nghymru a Lloegr neu'r Alban.

Darparir rhestr wirio er mwyn eich helpu i sicrhau eich bod wedi cofio cynnwys popeth ac eich galluogi i gadw cofnod o'r holl ddogfennau y byddwch yn eu hanfon. A fyddech gystal â rhoi'r holl ddogfennaeth, gan gynnwys y ffurflen gais a siec pan fo hynny'n berthnasol, mewn un amlen a'i phostio i'r cyfeiriad a nodwyd.

Gan eich bod yn cynnwys dogfennau gwreiddiol gyda'ch cais, byddem yn eich cynghori yn gryf i anfon eich cais trwy'r post cofrestredig.

Caiff eich cais ei gydnabod cyn pen pum diwrnod gwaith o'r adeg pan fyddwn yn ei gael.

Os bydd unrhyw broblemau, byddwn yn cysylltu â chi er mwyn sicrhau bod sylw yn cael ei roi i'ch cais gynted ag y bo modd.

Ar ôl gwneud penderfyniad am eich cais, byddwch yn cael llythyr yn eich hysbysu o'r penderfyniad a chan gynnig canllawiau am yr hyn yr hoffech ei wneud nesaf efallai. Os byddwch yn llwyddiannus, bydd y llythyr hwn yn cynnwys eich Tystysgrif Cydnabod Rhyw.